


Rhif: 20

Ardal o Gymeriad Morwedd:

### Dyfroedd arfordirol gogledd Bae Sain Ffraid



ACM20: Dyfroedd arfordirol gogledd Bae Sain Ffraid



Edrych i'r gorllewin o gerllaw Caerfai i Ynys Dewi yn y pellter



I'r dwyrain o Gaerfai



I'r dwyrain o gerllaw i Dinas Fach



Harbwr Solfach

### Disgrifiad Cryno

Mae morlin arfordir gogleddol Bae Sain Ffraid yn cynnwys clogwyni a phentiroedd danheddog a baeau a mornentydd cysgodol, ynghyd ag ychydig ynsoedd a chreigiau alltraeth. Mae golygfeydd panoramig o lawer pentir, yn cyferbynnu â'r dyffrynoedd a chilfachau cul cysgodol a'r cefnwlod o lwyfandir gwledig tawel. Mae'r ardal forol yn gymharol agored i wyntoedd o'r de ond mae cysgod ar gael mewn sawl man. Mae'n cynnwys potiau mêl ymwelwyr megis Solfach ac yn agos i ddinas eglwys gadeiriol Tyddewi.

### Nodweddion Allweddol

- Clogwyni danheddog a bylchog, pentiroedd bychain, ynisigau a baeau gyda mornentydd cul, ynghyd â rhostir lled-naturiol a llystyfiant o borfa arfordirol, a phob rhan wedi'i ddynodi'n ardal gadwraeth natur genedlaethol.
- Cefnwlod o lwyfandir yn gogwyddo'n araf deg gyda dyffrynoedd rhychog a thir amaeth, tir porfa gan fwyaf er bod ychydig o dir âr.
- Ffermydd gwasgaredig - mae pentref traddodiadol poblogaidd Solfach wedi'i leoli ar fornant coediog gydag ochrau serth, ond mae'r datblygiadau newydd yn ymestyn i fyny ar y llwyfandir.
- Mae parciau carafan yn weladwy mewn sawl man. Mae'r A487 wedi'i leoli'n agos i, ac yn gyfochrog â, yr arfordir.
- Mae'r môr yn gymharol agored i wyntoedd o'r de, gyda pheth aflonyddiad môr ger ymyl yr arfordir, ond yn cynnig cysgod rhag gwyntoedd o'r gogledd. Mae creigiau sy'n sychu neu sydd o dan yr wyneb yn beryglus i longau.
- Mae'r gweithgareddau morol wedi'u ffocysu ar Solfach, sydd yn bot mêl i ymwelwyr gyda'i lwybrau hwyl-griwsio a llithrfeydd ar gyfer llongau eraill. Mae gan Borthclais borthladd bach hefyd. Potio yw mwyafrif y pysgota.
- Mae Llwybr yr Arfordir yn gweld llawer iawn o ddefnydd, yn enwedig ger Tyddewi a Solfach ac yn caniatáu mynediad ar hyd ymyl y môr ac o gwmpas y mornentydd bylchog.
- Mae'r golygfeydd yn banoramig o sawl safbwynt uchel, a'r mornentydd wedi'u torri ar ffurf rhigolau cul. Mae'r olygfa o gwmpas Niwgwyl yn un o olygfeydd eiconig Sir Benfro.

### Dylanwadau ffisegol

Mae morlin gogleddol Bae Sain Ffraid yn cynnwys cyfres o dyffau, tywodfeini a cherrig llaid Cyngambriaidd i Gambriaidd wedi'u ffawtio yn streicio ar gyfeiriad dwyrain gogledd-ddwyrain / gorllewin de-orllewin. Ar gyfartaledd mae'r llwyfandir arfordirol yn wynebu i'r de rhwng 30 ac 80m AOD, gyda'r clogwyni yn gyffredinol yn cyrraedd rhwng 30 a 50m o uchder er bod rhai yn cyrraedd 85m. Mae i'r pentiroedd creigiog glogwyni serth a baeau bylchog gyda meini mawr a chreigiau a ddadorchuddir gan y llanw. Mae 'na bentiroedd creigiog bychain megis Dinas Fawr a Dinas Fach, staciau, bwâu, ogofau a chreigiau sychu. Mae dyffrynoedd rhychog cul, serth y Solfach a'r Alun yn ffurfio porthladdoedd bychain cysgodlyd lle y maent yn cyrraedd yr arfordir. Arfordiroedd creigiog sydd i ran fwyaf o'r ardaloedd rhynglanwol (76%), gyda mân gildraethau tywodlyd. Mae erydiad gan y gwynt a'r môr drwy rathiad, athreuliad ac effaith hydrologig.

Mae'r gwely môr bas (<20m), o dywod a thywod graeanllyd yn gorchuddio tyffau, tywodfeini a cherrig llaid yn mynd i waered yn araf deg (<1°), gydag ambell ynysig agored (e.e. Green Scar 33m aod, Black Scar, The Mare) ac ardaloedd bas yn gorchuddio creigwely suddedig. Mae'r moroedd yn agored i straen uchel o'r gwynt a'r tonnau. Mae cerhyntau llanwol y bae allanol yn cyfeirio i'r gogledd a'r de. Yn y bae, mae llifoedd llanw bychain yn cyfeirio i'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd yr arfordir. Yr amrediad llanw yw <6.5m.

Mae'r môr yn rhan o SAC Morwedd Sir Benfro ac mae'r arfordir yn rhan o SCA Tyddewi, SCA Ynys Dewi a Phenrhyn Tyddewi ac o SoDdGA Arfordir Penrhyn Tyddewi. Hefyd, mae'r clogwyni yn Ardal Bwysig i Adar. Mae'r llain arfordirol o rostir, llystyfiant glaswellt arfordirol a phorfa garw lled-naturiol yn ymestyn mewn mannau i bentiroedd megis Pen Dinas. Mae nifer o hen chwareli ar hyd ymyl yr arfordir. Mae'r rhywogaethau o flaenoriaeth yn cynnwys brain coesgoch, yr hebog tramor, cennau ac infertebrata prin.

Tir porfa yw'r gefnwlad gan fwyaf gyda pheth tir âr. Mae'r patrwm caeau yn amrywio o faint canolig a mwy unionlin i gaeau llai o siâp organig, gyda chloddiau isel ac ambell ardal o goedtir collddail, yn gysylltiedig yn enwedig â'r dyffrynoedd nant byr, cul ag ochrau serth iddynt.

### Dylanwadau diwylliannol

Sefydlwyd Eglwys Gadeiriol Tyddewi ychydig i'r gogledd ar lwybr môr mawr yr eglwys Gristnogol gynnar yng Nghymru ac Iwerddon. Mae'n dirwedd hanesyddol sy'n cynnwys tystiolaeth helaeth ac a gadwyd mewn cyflwr da o ddefnydd tir ac o'r gweithgareddau defodol a chrefyddol o'r cyfnod cynhanesyddol ymlaen. Yn yr ardal ceir beddau cellog ac aneddiadau Neolithig; ceirydd a systemau cae o'r Oes Haearn; ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi a'r ddinas a'u gosodiadau gerllaw, o bwysigrwydd ac arwyddocad diwylliannol parhaus yng Nghymru, fel Pebidiog. Mae ceirydd pentir megis Gribin a Phorth y Rhaw yn dangos bod angen amddiffyn yr ardal arfordirol hon yn y cyfnod cynhanesyddol.

Mae'r henebion rhestredig yn cynnwys:

- PE013 (capel y Santes Non): cymuned: Tyddewi
- PE043 (bedd cellog): cymuned: Solfach
- PE272 (mwnt): cymuned: Brawdy
- PE273 (Porth y Rhaw - caer bentir): cymuned: Solfach
- PE294 (Caerfai - caer bentir): cymuned: Tyddewi
- PE378 (odyn): cymuned: Solfach
- PE395 (ffarm): cymuned: Solfach
- PE410 (Gribin - caer bentir): cymuned: Solfach
- PE429 (melin): cymuned: Tyddewi
- PE480 (lloc): cymuned: Solfach
- PE539 (Dinas Fach - caer bentir): cymuned: Brawdy
- PE540 (lloc): cymuned: Brawdy
- PE548 (caer bentir): cymuned: Solfach

Nid yw crib-gaer Gribin wedi'i rhestru eto. Mae'r rhan orllewinol o'r ardal hon o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi.

Yn anad dim mae'r ardal wedi'i chysylltu â hanes yr eglwys yn Nyddewi, a gyda'i chysylltiadau morol. Yn ôl pob sôn, adeiladwyd Capel y Santes Non ar yr union safle lle y ganwyd Dewi Sant i'w fam, y Santes Non. Mae Bae Sain Ffraid y cymryd ei enw o'r Santes Brigid o Gildara, a fawrygwyd ar draws Ewrop. Buodd Graham Sutherland yn paentio ar hyd yr arfordir, mewn mannau megis o gwmpas Porth Clais e.e. *'Welsh landscape with roads'*. Mae'r artist cyfoes, John Knapp Fisher, wedi paentio golygfeydd sy'n cynnwys Solfach.

Mae'r llongddrylliadau wedi'u clystyru o gwmpas Bae Porthlysgi ym mhen gorllewinol yr ardal [7] ac o gwmpas Solfach [4]. Yn yr ardal gyntaf mae'r llongddrylliadau'n cynnwys y St George a'r Portland ger y bae a'r Prince Cadwgan, y Lewis a'r Whiteplain ymhellach alltraeth. Mae'r Vernicos Alexia, y Vernicos Barbara IV a'r Vernicos Giorgis oll yn gorwedd i'r gorllewin o Solfach.

Y brif aneddiad yw Solfach, sydd o gymeriad traddodiadol gyda'i fythynnod bach, er bod datblygiadau stâd 20fed ganrif wedi ymestyn i'r llwyfandir i'r gorllewin. Mae parciau carafannau statig a safleoedd gwersylla wedi'u lleoli ger yr arfordir yng Nghaerfai a Phorthclais. Mae'r A487 poblogaidd sy'n cysylltu Tyddewi gyda mannau i'r dwyrain yn rhedeg yn agos i'r arfordir, ond yn gyffredinol nid yw'n amharu ar y llongyddwch wrth ymyl y dŵr.

Yn Solfach, porthladd bach naturiol, mae oddeutu 50 angor sigl - ar gyfer perchnogion cychod hamdden a physgotwyr y glannau - wedi'u lleoli i fyny'r ddyfrffordd, sy'n sych pan fydd y llanw ar drai. Mae clwb iotiau ar ben y pentre sy'n wynebu tua'r môr, ac mae maes parcio yno. Bydd

cychod hwylio a chychod modur yn hwylio am y diwrnod o Solfach. Mae llwybr criwsio arfordirol yn cysylltu Aberdaugleddau/ Sgomer gyda Solfach a mannau i'r gogledd ar draws Bae Sain Ffraid a thu hwnt i Swnt Dewi, ac mae iotiau hwylio yn defnyddio hwn ac angorfeydd eraill ar hyd y darn yma o'r arfordir. Mornant llanwol bach yw Porth Clais, gyda wal fôr fechan yn cynnig peth cysgod i ychydig o gychod pysgota'r glannau. Mae llithrfeydd ym Mhorth Clais a Solfach a ddefnyddir i lansio caiacau, cychod dydd, cychod hwylio ac ychydig o jet-sgis. Mae pysgota môr oddiar gychod a'r creigiau yn boblogaidd ar hyd yr arfordir hwn, fel y mae plymio a snorkelio. Mae Bae Porthlysgi yn cynnig angorfa dda cyn mentro i'r gogledd drwy Swnt Dewi. Mae Dinas Fawr hefyd yn cynnig cysgod i gychod o wyntoedd y gogledd a'r dwyrain, fel y gwna Dinas Fach am wyntoedd o'r gorllewin a'r gogledd.

Bae Caerfai, er yn fach, yw'r unig draeth cymharol hygyrch ar hyd yr arfordir hwn. Mae Llwybr Arfordir Penfro yn rhedeg ar dop ymyl y clogwyn ac mae'r darn hwn ohono yn boblogaidd oherwydd yr atyniadau yn Nhyddewi a Solfach, heolydd cyswllt a pharcio ceir gerllaw.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydo sân o'r traeth a rhwydi traeth, rhwydi gosod, potio cimychiaid a chrancod gan ddefnyddio'r morlin creigiog, ac mae 'na botensial am dreillio ysgafn. [Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.](#)

#### Ansoddau esthedig, canfyddiadol a phrofiadol

Mae'r ardal o raddfa eang yn nhermau'r golygfeydd ar draws Bae Sain Ffraid, gyda chyferbyniad rhwng ymyl y clogwyn a'r pentiroedd agored, a'r cilfachau cyfyng a'u golygfeydd cul wedi'u sianeli. Mae'r olygfa o gwmpas Niwgwyl yn edrych i'r gorllewin, gyda chreigiau a nodweddion dramatig, yn un o olygfeydd eiconig arfordir Sir Benfro. Mae'r gweadau wrth ymyl y môr yn arw ac yn onglog, gyda nodweddion fertigol cryf yn arwain at y llwyfandir y tu ôl.

Mae'r dirwedd yn un unedig a chytbwys iawn, yn agored ac yn ddramatig wrth ymyl y clogwyn, yn cyferbynnu â'r diogelwch a'r teimlad o fod wedi amgau yn y cilfachau, sy'n meddu ar fwy o amrywiaeth a lliwiau cryf. Yn Solfach a chilfachau eraill mae arogl y môr neu'r aber yn gryf.

Mae naturioldeb i'r llystyfiant arfordirol ac mae llonyddwch mawr yn y rhan fwyaf o lefydd, er yn Solfach, yn agos i'r A487 ac o gwmpas y parciau carafan mae'r llonyddwch yma'n lleihau oherwydd ymyrraeth gweledol, sŵn o'r heol, gweithgareddau ymwelwyr a goleuo yn ystod y nos.

#### Buddion a gwasanaethau diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol at wasanaethau hamdden ac adloniant ar ffurf adloniant morol, gweithgareddau a hamdden sy'n gysylltiedig â'r traeth, galerïau a chyfleusterau i ymwelwyr ym mhentre Solfach, at dreftadaeth naturiol ar ffurf ei arfordir a'i gilfachau nas difethwyd, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol o ran ei gysylltiadau hanesyddol ac artistig cyfoethog a gyda'r ymdeimlad o bellenigrwydd, o lonyddwch ac o fod yn un â byd natur.

Grymoedd am newid								
Crynodeb	Grymoedd allweddol am newid							
<p>Yn gyffredinol mae pentiroedd y clogwyni yn erydu'n araf, cefn y baeau yn erydu'n fwy. Mae'r cynllun rheoli'r traethlin yn dweud, yn gyffredinol, 'gwnewch dim', ac yn lleol yn Solfach ac ym Mhorth Clais 'daliwch y lein'.</p> <p>Mae pwysau o ddatblygu ac ymwelwyr, yn enwedig yn Solfach a Chaerfai, yn effeithio ar gymeriad hanesyddol y cyntaf ac ar ansawdd olygfaol a llonyddwch y forwedd.</p> <p>Mae llwybr yr arfordir wedi treulio mewn mannau oherwydd ei boblogrwydd yn yr ardal, ac mae goleddf sy'n erydu ger y llwybr sy'n rhoi mynediad i Fae Caerfai.</p> <p>Mae sbwriel a llygredd yn Solfach yn effeithio ar gynefinoedd ac ansawdd olygfaol y mornant.</p> <p>Effaith gweithgareddau hamdden ar ardal silio bwysig yn Solfach.</p> <p><a href="#">Byddai trwyddedau ar gyfer olew a nwy yn y dyfodol yn newid cymeriad yr ardal pe bai'n cael ei datblygu.</a></p>	<b>Ansoddau Arbennig</b>	Prosesau naturiol/newid yn naturiol	Pwysedd ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol	Egni neu fwynau ar y môr	Pwysedd datblygiad	Newid mewn rheolaeth tir	Defnydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn
	Ysblander yr arfordir							
	Ynysoedd							
	Amrywiaeth yn y tirlun							
	Pellter, llonyddwch ac Ardal Wylt							
	Daeareg Amrywiol							
	Cyfoeth o Gynefinoedd a Bioamrywiaeth							
	Cyfoeth o Archaeoleg							
	Cymeriad Nodweddiadol yr Aneddiad							
	Treftadaeth Ddiwylliannol							
	Mynediad at y Parc							
	Lle i Anadlu							
	Allwedd							
	Newid i'r ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisol							
Sensitifeddau Allweddol								
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd				Ffactorau sy'n tynnu oddiar sensitifrwydd				
<p>Ansawdd gwledig nas difethwyd ymyl y môr o gymeriad creigiog, bylchog iawn gyda chlogwyni a nodweddion.</p> <p>Golygfeydd eang dros Fae Sain Ffraid.</p> <p>Cymeriad hanesyddol Ardaloedd Cadwraeth Solfach a Thyddewi a nodweddion hanesyddol eraill.</p> <p>Mae Llwybr Arfordir Penfro yn dderbynydd sensitif.</p>				<p>Datblygiadau tai, gweithgareddau ymwelwyr a defnydd hamdden yn Solfach a Chaerfai, a pharciau carafan.</p> <p>Sŵn a symudiad ar yr A487.</p>				

--	--